



Wncwl Em o America

1

[Miwsig - anthem America]

Ffôn yn canu

Mam: Helo, Abergwaun 733231.

Emlyn: Helo Sian. Dw i'n ffonio o North Carolina.

Mam: Emlyn! Sut wyt ti?

Emlyn: Bendigedig! Sut wyt ti a'r teulu?

Mam: Gwych, diolch.



Emlyn: Dw i'n dod i Gymru ar wyliau.

Mam: Gwych. Pryd wyt ti'n dod?

Emlyn: Dydd Sadwrn nesa. Hwyl!

Mam: Hwyl Emlyn.

[Miwsig: O Gymru]



Wncwl Em o America

2

[Miwsig: O Gymru]

Wncwl Em: Tacsii!

Dyn y tacsii: Ble ydych chi eisiau mynd, syr?

Wncwl Em: Abergwaun, os gwelwch yn dda, i 21A, Clive Road.

Dyn y tacsii: Iawn, Un cêś mawr melyn, un ces mawr glas.




Bocsys mawr, bocsys bach, bocsys hir, bocsys sgwâr.

Wncwl Em: Diolch yn fawr.

Mae'n braf heddiw.

Dyn y tacsii: Ydy wir. Ydych chi eisiau'r radio?

Wncwl Em: Ydw. Radio Cymru os gwelwch yn dda.






Wncwl Em o America

3

[Miwsig o Gymru]



Dyn y Tacsi: Dyma ni. Abergwaun - 21A, Clive Road.

Wncwl Em: Diolch yn fawr.

Dyn y tacsi: Un cêś mawr melyn, un cêś mawr glas.

Bocsys mawr, bocsys bach, bocsys hir,
bocsys sgwâr.

Pedwar deg punt, os gwelwch yn dda.

Wncwl Em: Dyma chi, pum deg punt.

Dyn y tacsi: O diolch yn fawr iawn.



Wncwl Em o America

4

[Miwsig o Gymru]

Pawb: Croeso! Croeso! Wncwl Em.

Wncwl Em: Helo pawb. Sut wyt ti Siân?

Mam: Bendigedig!

Wncwl Em: Sut wyt ti, Rhys?

Rhys: Bendigedig, Wncwl Em.

Wncwl Em: Sut wyt ti Bethan?

Bethan: Bendigedig, Wncwl Em. Beth sy yn y
bocsys, Wncwl Em?

Wncwl Em: Bîffbyrgys, wrth gwrs!

Bethan: Bîffbyrgys! Gwych.




Rhys: Bîffbyrgys! Gwych.

Bethan: Wel, bîffbyrgys i frecwast!

Rhys: Wel, bîffbyrgys i ginio!

Bethan: Wel, bîffbyrgys, i de!

Rhys: A bîffbyrgys, i swper!





Wncwl Em o America

4

Bethan: Bîffbyrgys Dydd Sul.

Rhys: Bîffbyrgys Dydd Llun.

Mam: Bîffbyrgys Dydd Mawrth.

Wncwl Em: Bîffbyrgys Dydd Mercher.

Bethan: Bîffbyrgys Dydd Iau.

Rhys: Bîffbyrgys Dydd Gwener.

Pawb: A bîffbyrgys Dydd Sul

Mam: O dw i wedi cael llond bol o fwyta
bîffbyrgys!

Bethan: Ond dw i 'n hoffi bîffbyrgys gyda sôs
coch


Rhys: a sglodion!

Wncwl Em: Dw i'n mynd adre i America Dydd Sadwrn.

Rhys: Ond dw i eisiau bîffbyrgys bob dydd.

Bethan: Dim rhagor o bîffbyrgys!

Mam: Diolch byth!



Wncwl Em o America

4

Wncwl Em: ond...

Bethan: ond...

Rhys: ond...

Wncwl Em: Dyma ti, Siân. [amlen a nodyn]

Bîffbyrgys 'Emlyn Bîffbyrgyr Jones' yn
siop Iceland, Hwlffordd bob Dydd
Mercher.

Bethan a Rhys: O, bendigedig, diolch i Wncwl Em!
Diolch yn fawr i Wncwl Em.

Wncwl Em: Hwyl bawb.

Pawb: Hwyl Wncwl
Em.

[Canu: 'Canu Roc a Rôl']

